**Tasg 2**

# Eitem ddiddorol

1. Gwyliwch glip o Dafydd yn cyflwyno eitem ddiddorol.
   Trafodwch y clip, e.e.

   **Am beth mae'r clip yn sôn?**

   **Beth sy'n digwydd yn y clip?**

   **Beth yn union mae Dafydd yn ei wneud yn y clip?**

   Beth yw'ch barn chi am y clip?
   Cofiwch roi digon resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

2. Rydych chi'n mynd i baratoi eitem ddiddorol ar gyfer rhaglen gylchgrawn – rhaid i chi:
   - chwilio am / feddwl am eitem ddiddorol am eich ardal (Gallwch chi greu eitem ddychmygol os ydych chi eisiau!)
   - ysgrifennu am yr eitem
   - cyflwyno'r eitem – beth am ffilmio'ch hunain?

   Pan fyddwch chi'n ysgrifennu'r eitem, meddyliwch am:

   **beth yw'r stori?**

   **ble mae'n digwydd**

   **pwy yw'r bobl (neu anifeiliaid efallai)**

   **pryd mae'n digwydd / pryd digwyddodd / pryd bydd yn digwydd**

   **y manylion**

3. Gwyliwch / Gwrandewch ar eitemau eich gilydd.
   Beth yw'ch barn chi am yr eitemau?
   Cofiwch roi digon o resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.